# Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

# Llanddulas

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools



**A ydych yn credu y gellid gwneud eich adeilad ysgol yn well?**

94% YDW

**Pa ysgol ydych chi'n gysylltiedig â hi?**

| | |
|---|---|
| Ysgol Llanddulas | 75 |
| Ysgol Bryn Elian | 13 |
| Ysgol Arall | 1 |

**Pa mor bell o safle presennol yr ysgol fyddech chi'n barodi deithio i unrhyw ysgol newydd?**

| | |
|---|---|
| 0 – 0.5 filltir | 48 |
| 0.5 – 1 filltir | 92 |
| 1 – 2 milltir | 81 |
| 2 - 3 milltir | 33 |
| 3+ milltir | 35 |

**Cod post yr ymatebwyr**

| | |
|---|---|
| LL22 | 39 |
| LL29 | 13 |
| LL18 | 2 |
| LL30 | 1 |

**Pa wasanaethau 'ychwanegol' sy'n bwysig i chi mewn ysgol?**

| | |
|---|---|
| Clwb Brecwast | 65 |
| Clybiau Ar Ôl Ysgol | 63 |
| Mannau Parcio / Gollwng | 61 |
| Cyfleusterau Chwaraeon / Hamdden | 54 |
| Darpariaeth Dysgu Yn Yr Awyr Agored | 52 |
| Darpariaeth ADY | 45 |
| Cyn Ysgol / Cylch | 39 |
| Defnydd cymunedol | 34 |
| Cysylltiadau cludiant cyhoeddus | 21 |
| Arall | 2 |

**Beth hoffech chi ei weld?**

| | |
|---|---|
| Adnewyddu Cyffredinol / Trwsio a Chynnal a Chadw (i ardaloedd yn yr ysgolion presennol) | 22 |
| Codi ysgol newydd bwrpasol | 54 |
| Disodli unrhyw ystafelloedd dosbarth dros dro gydag adeiladau parhaol | 25 |
| Arall, rhestrwch isod | 6 |

**Pwy gymerodd ran?**

| | |
|---|---|
| Disgyblion | 8 |
| Rhieni/gwarcheidwaid | 62 |
| Staff | 5 |
| Llywodraethwr | 1 |
| Cyhoedd | 10 |
| Cynghorydd | 2 |
| Arall | 2 |

A oes angen gwella adeilad eich ysgol bresennol?
**Rhai ymatebion:**

Mwy o TGCh, mwy o offer chwaraeon, clwb ar ôl ysgol am amser hirach

Mwy o le i ffynnu, ystafelloedd mwy, profiadau awyr agored, amgylchedd diogel, cyfleusterau awyr agored yn hyrwyddo chwarae a dysgu cadarnhaol.

Mae plot gwych o dir ar draws y ffordd o'r ysgol a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer adeiladu ysgol fwy. Mae'r ysgol bresennol mor fach ac nid oes digon o le ar gyfer pethau hanfodol e.e. ystafell gyfrifiadurol. Mae'r sefyllfa barcio bresennol yn beryglus, byddai'r adeilad newydd yn creu mwy o le i barcio.

Mae hon yn ysgol wych. Ond mae angen cyfleusterau modern.

Mae'r ddau o blant yn dweud pethau cadarnhaol iawn am eu profiadau yn Llanddulas – mae'n dal ychydig bethau i wella arnyn nhw. Mwy o ofod / moderneiddio yw'r prif faes mae angen mynd i'r afael ag o.

Pan fydd gwelliannau'n cael eu gwneud i'r ysgol, bydd hefyd angen mynd i'r afael â mynediad i blant gydag anghenion corfforol o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gan mai dim ond nifer cyfyngedig sy'n diwallu'r anghenion hyn. Dylai ysgolion fod yn gynhwysol ar gyfer pob gallu gan fod pob plentyn yn unigolyn, yn amrywio o addysgu i'r amgylchedd.

Ysgol mor arbennig, parcio yw'r unig broblem.

Byddai'n wych i ysgol newydd gael ei hadeiladu ond byddai'r un mor bwysig cadw'r lle awyr agored sydd gan y plant ar hyn o bryd gyda'r cae.

Mae staff Llanddulas wedi gweithio'n galed i gynnig ardal awyr agored wych, bydd angen cadw / ail-adeiladu hwn. Mae parcio yn broblem fawr yn yr ysgol, dylid ystyried hyn hefyd. Byddwn yn falch i weld Eco-ysgol yn cael ei chodi.

Byddai'n wych i gael ysgol newydd gyda digon o fannau gwyrdd er mwyn i'r gymuned / plant / staff ei fwynhau. Nid oes tai ar safle presennol yr ysgol!!

Rwy'n hoffi cael ysgol yn y pentref. Fodd bynnag, mae'r pentref yn tyfu ac weithiau rydw i'n teimlo bod angen ysgol ychydig mwy arnom. Rwy'n hoffi'r ffaith fy mod yn byw mewn pentref a bod gennym ysgol leol. Mae wedi helpu fy mhlant i gael annibyniaeth. Mae'n gyfleus, felly rydym yn gallu cerdded i'r ysgol yn hytrach na dibynnu ar gludiant.

Rydw i'n meddwl y byddem ni'n elwa o greu ffordd allan ar ben arall y ffordd fel na fyddai'n rhaid i draffig yr ysgol droi o gwmpas.

Mae gofod awyr agored yn angenrheidiol, ardal gymunedol, gerddi a lleoedd chwarae.

Mae Ysgol Llanddulas yn ysgol ardderchog ond rwy'n teimlo y byddai adeilad newydd yn cynnig mwy o ystafelloedd dosbarth fel nad oes rhaid i flynyddoedd fod yn gymysg a bod hefyd mwy o leoedd i blant a fydd eu hangen unwaith y bydd yr eiddo newydd wedi eu hadeiladu yn yr ardal

Yn ddelfrydol, dylid codi'r ysgol newydd ar y safle presennol yn hytrach nag adeiladu ar gae'r ysgol – os byddai dull arloesol yn cael ei gymryd, mae'n rhaid bod modd ei gwblhau yn ystod gwyliau'r haf. Adeilad wedi'i adeiladu'n barod

Rwy'n credu bod yr ysgol yn cynnig gwasanaeth ardderchog o ystyried y cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai ysgol newydd gyda chyfleusterau addas ar gyfer y galwadau addysgol newydd yn galluogi tîm ardderchog o staff i gynyddu eu potensial ac o fudd mawr i'r gymuned.

Rwy'n teimlo y byddai ysgol newydd yn gwella addysgu i'r plant gan ganiatáu iddynt dyfu i'w potensial llawn drwy gael yr holl gyfleusterau ar gael iddynt.

Rwy'n credu y byddai ysgol newydd yn fuddiol i blant heb adeilad allanol ar gyfer dosbarthiadau. Byddai'n dda cael popeth mewn un adeilad. Rwy'n credu y byddai'n dda i'r athrawon a bydd yn ffynnu gydag ysgol well.

Mae Ysgol Llanddulas yn ysgol ardderchog, sy'n cael ei thrysori gan drigolion pentrefi cyfagos. Mae angen buddsoddiadau yn yr adeilad sy'n adlewyrchu'r staff.

Mae'r gofod awyr agored yn dda. Llawer o natur.

1 storfa ychwanegol, 1 ystafell gelf ychwanegol

Mae'r Ysgol Goedwig / darpariaeth awyr agored yn gryfder mawr a hoffwn weld hyn yn cael ei gadw a'i ehangu.

Os ydych yn ehangu'r safle presennol, sut ydych chi'n mynd i ymdopi gyda'r traffig ar Ffordd Pencoed a allai eisoes arwain at ddamweiniau, cyn i 20 o dai eraill gael eu codi. Mae angen mwy o feddwl ar sut ydych chi'n ymgysylltu â'r gymuned gan nad yw amryw o drigolion yn ymwybodol o'r sesiwn hon.

Mae'r ysgol yn amlwg yn agwedd bwysig o'r gymuned leol a dylid gwneud pob ymdrech i'w chadw felly.

Yn ddelfrydol, byddai gwasanaeth bysiau ysgol arddull Americanaidd ar gyfer yn ysgol yn helpu gyda'r problemau parcio. Byddai lle chwarae gwell gyda llithrennau ac ati i'w mwynhau yn fuddiol. Ysgol newydd mwy o faint yw'r ffordd ymlaen, mae'r safle'n fach ac yn orlawn.

Mae gwir angen ystafell ar gyfer cyfarfodydd cymunedol – nid oes unrhyw beth yn y pentref ar hyn o bryd.

Lleoedd parcio diogel tu allan a mannau gollwng a pharcio nad ydynt yn creu anghyfleustra i drigolion lleol

Fel rhiant sy'n gweithio mewn ysgol arall lle mae'r dosbarth meithrin yn rhannu cyfleusterau gyda'r

grŵp chwarae ar y safle, rwy'n teimlo y byddai'n fuddiol i gael gofod neu ystafell ar wahân ar gyfer pob un

Ni fyddwn yn dymuno gweld y cae chwarae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ysgol bwrpasol gan fod y gofod gwyrdd tu allan hwn yn rhan fawr o gymuned Llanddulas ac yn ofod prin yn ein pentref.

## Sylwadau Disgyblion Llanddulas

- Gwell lleoedd parcio / gollwng.
  Gwell Offer Chwaraeon Tu Allan.
- Addysg Garddio, gyda phats Llysiau.
  Dosbarthiadau Coginio.
- Theatr dan loches.
  Cae Astro – lle chwarae mwy.
- Pwll Nofio fel nad oes rhaid i ni deithio.
- Rwy'n credu y gallem gael gwell lle gollwng i'r ysgol er mwyn i ni aros yn ddiogel (weithiau mae pobl yn gyrru'n gynt na'r terfyn cyflymder).
- Rwyf eisiau i'r toiledau fod yn lanach, hylan, a thrwsio'r toiledau.
- Clwb coginio.
- Mwy o Offer Ysgol y Goedwig.
- Cae Astroturf.
- Dosbarth Coginio.
- Pats llysiau – gallem ni eu bwyta nhw ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mwy o leoedd i gael dŵr ohonynt.
- Gallem ni gael Neuadd ysgol fwy o faint.
- Ystafell TG.
- Tŷ coed.
- Gwneud ystafelloedd dosbarth yn fawr iawn.
- Tŷ coeden a lle chwarae meddal – byddai clwb gemau yn beth da.
- Cael croesfan sebra tu allan i'r ysgol.
- Cael Canopi Tu Allan.
- Lleoedd i fwyta tu allan
- Gemau maes chwarae wedi eu paentio ar yr iard.
- Paneli Solar, wifi tu allan, gwair naturiol, golau awtomatig.
- Gallem gael tŷ gwydr.
- Llyfrgell, ystafell ymlacio, ardal grefftau, clwb cymunedol, drysau awtomatig.
- Gallwn agor y llyfrgell i'r gymuned i fenthyg llyfrau fel y gallwn arbed ynni.
- Ysgol Ecogyfeillgar.
- Mwy o le storio i gadw bagiau a chotiau fel nad ydan ni'n baglu.
- Wal ddringo yn y neuadd.
- Lle storio beiciau / sgwteri.
- Digon o goed a gwair.
- To eco.
- Bws mini sy'n dod i dai i fynd a nhw i'r ysgol i arbed rhieni thag gorfod eu gyrru nhw.
- Paneli solar ecogyfeillgar.
- Ystafell Iaith, Ystafell TG, Mac books.
- Gallem ni gael ystafell lle gallwn ni fynd i dawelu i lawr pan rydan ni'n flin.
- Lloches tu allan ar gyfer cinio.
- Mae Ysgol Llanddulas yn ysgol wych yn barod.

Diolch i bawb a gymerodd ran ac am ychwanegu i'r broses.

